

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

DATGANIAD CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2017

DS Jones CPFA
Prif Swyddog Cyllid

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Datganiad Cyfrifon am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2017

Cynnwys	Tudalen
<i>Adroddiad Naratif</i>	1-11
<i>Datganiad Llywodraethu Blynnyddol</i>	12-39

ADRODDIAD NARATIF

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Fe'i paratowyd yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016/17.

Diben yr adroddiad naratif hwn yw darparu canllaw i'r prif ddatganiadau a gynhwysir yn y cyfrifon ac i roi sylwadau a chrynhofi perfformiad ariannol cyffredinol y Cyngor am y flwyddyn.

Datganiadau Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol - ynghyd â Datganiad o Gyfrifoldebau a Nodiadau Esboniadol - wedi'u nodi ar dudalennau 11 i 89, ac maent yn cynnwys:

Dadansoddiad o'r Gwariant a'r Cyllid

Mae'r Dadansoddiad o'r Gwariant a'r Cyllid yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau'r llywodraeth, rhenti, y dreth gyngor a chyfraddau busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau hynny y mae awdurdodau yn eu defnyddio neu'u hennill, yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'n dangos sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng cyfarwyddiaethau'r Cyngor. Cyflwynir yr incwm a'r gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn llawnach yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant.

Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant

Mae'r datganiad hwn yn hanfodol i ddeall gweithgareddau awdurdod lleol, gan ei fod yn nodi cost net am y flwyddyn o'r holl swyddogaethau y mae awdurdod yn gyfrifol amdanynt, ac yn dangos sut y mae'r gost honno wedi'i hariannu gan grantiau llywodraeth cyffredinol ac incwm trethdalwyr lleol. Mae'n dwyn ynghyd y gwariant a'r incwm sy'n gysylltiedig â holl swyddogaethau awdurdod lleol. Mae'n dangos y gost gyfrifyddu o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod. Dadansoddir y rhain fel "cronfeydd defnyddiadwy", sef y rhai a all gael eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau trethi, a "chronfeydd andefnyddiadwy" eraill. Mae'r "Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau" yn dangos gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod, a cheir mwy o fanylion amdanynt yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n ofynnol eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol at ddibenion gosod y dreth gyngor. Mae'r "Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd" yn dangos y Balans Cronfa Gyffredinol statudol cyn bod unrhyw drosglwyddiadau dewisol yn cael eu gwneud gan yr Awdurdod i, neu, o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd.

Mantolen

Mae'r datganiad hwn yn hanfodol i ddeall sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar Ddyddiad y Fantolen gan ei fod yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae'r asedau net a gedwir gan yr Awdurdod (sef yr asedau, llai'r rhwymedigaethau) yn cyfateb i gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Mae'r cronfeydd wrth gefn mewn dau gategori:

- Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy – mae'r rhain yn gronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd, er enghraifft, gellir defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyledion yn unig.
- Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy – mae'r rhain yn gronfeydd na all yr Awdurdod mo'u defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu, er enghraifft y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, lle byddai symiau'n dod ar gael i ddarparu gwasanaethau pe bai asedau'n cael eu gwerthu, a'r cronfeydd wrth gefn sy'n dal y gwahaniaethau amser a ddangosir yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Datganiad Llif Arian

Mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r mewnlifau a'r all-lifau arian sy'n deillio o drafodion gyda thrydydd partion at ddibenion refeniw a chyfalaf. Mae'n dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerthoedd arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut y mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chyfwerthoedd arian trwy ddosbarthu llifoedd arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido.

Newidiadau i Ddatganiadau Ariannol 2016/17

Er mwyn symleiddio a gwella dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r datganiadau ariannol, mae CIPFA wedi diwygio'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2016/17 i'r canlynol:

- Dylai awdurdodau lleol dorri'r cyswllt ffurfiol rhwng y Cod Ymarfer Adroddiadau Gwasanaethau (SeRCOP) a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES). Bellach, mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei baratoi ar yr un sail ag yr adroddir yn fewnol gan awdurdodau. At hynny, mae angen ailddatganiad o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2015/16.
- Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu Dadansoddiad Gwariant a Chyllid newydd sy'n darparu cysoniad uniongyrchol rhwng y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cael eu hariannu ac yn paratoi eu cyllidebau a'u Datganiadau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn ffordd sy'n hygyrch i'r darllenydd lleyg.
- Caiff y dadansoddiad hwn ei gynorthwyo trwy symleiddio'r Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, ac mae'r newidiadau wedi disodli'r gofyniad i adrodd mewn ffurf gylchrannol.

Strwythur yr Awdurdod

Mae strwythur yr Awdurdod yn cynnwys tair Cyfarwyddiaeth:

- Pobl a Pherfformiad
- Lleoedd a Thrawsnewid
- Costau Corfforaethol

Gellir gweld meysydd gwasanaethau'r Cyfarwyddiaethau hyn yn Adran Aldro Refeniw'r Gyllideb yn yr Adroddiad Naratif hwn.


Gweithgareddau Refeniw

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos, yn fras, weithgareddau refeniw'r Awdurdod am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017; hynny yw, ffynhonnell a gwariant yr arian.

Ffynhonnell yr Arian


	£'000	%
Grantiau Llywodraeth	112,574	67
Rhenti a Chodiannau	10,077	6
Talwyr y Dreth Gyngor	20,156	12
Ardrethi Annomestig Cenedlaethol	17,560	10
Incwm Arall	7,581	5
Cyfanswm	167,948	100

Yr eitem unigol fwyaf yw Grantiau'r Llywodraeth sy'n darparu 67% o'r cyfanswm, tra bod 6% yn dod o'r gwasanaethau a ddarperir trwy rentu, ffioedd a chodiannau. Mae incwm y Dreth Gyngor yn cyfrif am 12% yn unig o'r cyfanswm incwm.

Ffynhonnell yr Arian

Gwariant yr Arian

	£'000	%
Costau Gweithwyr	70,082	42
Treuliau Rhedeg	85,958	52
Costau Cyllido Cyfalaf	7,235	4
Ardollau	2,929	2
Cyfanswm	166,204	100




Mae costau rhedeg megis cynnal adeiladau, trin cerbydau a phrynu cyflenwadau a gwasanaethau yn cynnwys 52% o'r cyfanswm gwariant, tra bod gwariant y gellir ei briodoli i weithwyr yn cyfateb i 42%.

Y Gwasanaethau a Ddarperir

	£'000	%
Pobl a Pherfformiad	96,001	58
Lleoedd a Thrawsnewid	35,634	21
Costau Corfforaethol	34,569	21
Cyfanswm	166,204	100

Y Gwasanaethau a Ddarperir



Mae cyfanswm y gwariant a'r incwm, sef £166.204 miliwn, yn deillio o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ar ôl ystyried addasiadau ar gyfer dyraniadau cyfrifon masnachu a goblygiadau Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19.

Canlyniadau a Adroddwyd yn y Datganiad Cyfrifon

Roedd y cyfansymiau ar gyfer incwm a gwariant yn yr adran flaenorol yn deillio o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 15, ond maent yn eithrio:

- y praesept a gasglwyd yn y Dreth Gyngor ar gyfer Heddlu De Cymru (£3.72m yn 2016/17, Nodyn 11),
- cyfran yr Awdurdod o gydbwyllgorau (mae'r manylion i'w gweld yn Nodyn 42 y cyfrifon),
- grantiau cyfalaf a thrafodion (rydym yn adolygu ein prosiectau cyfalaf ar dudalen 8), a
- cofnodion eraill nad ydynt yn arian parod sy'n ofynnol gan safonau cyfrifyddu (yn enwedig ar gyfer y rhwymedigaethau pensiwn yr ydym yn eu trafod ar dudalen 9).

Mae'r gwarged net referniw o £1.744m (h.y. y gwahaniaeth rhwng y ffigurau incwm a'r gwariant a ddangosir uchod) yn cyd-fynd â'r alldro o £1.894m a ddangosir yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid ar dudalen 14, oherwydd ein bod wedi cydnabod gwarged ychwanegol o £0.150m yn y cyfrifon sydd a wnelo â'n cyfran ni o gydbwyllgorau.

Trosglwyddir y gwarged i'r Gronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd, a bydd hyn yn helpu'r Cyngor wrth gynllunio'i gyllid i'r dyfodol a chreu cyllidebau cytbwys dros y tymor canolig. Cyfanswm y gwarged ar 31 Mawrth 2017 oedd £4.632 miliwn.

Alldro Refeniw i'r Gyllideb

Mae Alldro Refeniw'r Gronfa Gyffredinol i'r Gyllideb ar gyfer 2016/17 fel a ganlyn:

Crynodeb	Cyllideb Ddiwygiedig 2016/17 £'000	Alldro £'000	Amrywiant	
			£'000	%
<u>Pobl a Pherfformiad</u>				
Gwasanaethau Cymdeithasol	29,020	28,174	(846)	(2.92)
Dysgu	42,761	43,015	254	0.59
	71,781	71,189	(592)	(0.82)
<u>Lleoedd a Thrawsnewid</u>				
Gwasanaethau'r Dirprwy Brif Weithredwr	2,184	2,083	(101)	(4.62)
Adfywio Cymunedol	3,587	3,529	(58)	(1.62)
Gwasanaethau'r Gymdogaeth	10,352	10,172	(180)	(1.74)
Gwasanaethau Corfforaethol	4,087	4,152	65	1.59
Cyllid	1,073	1,064	(9)	(0.84)
Cyfanswm	21,283	21,000	(283)	(1.33)
<u>Costau Corfforaethol</u>				
Rheolaeth Gorfforaethol	351	331	(20)	(5.70)
Awdurdod Corfforaethol	18,642	18,220	(422)	(2.26)
Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol	598	552	(46)	(7.69)
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democritaidd	1,535	1,446	(89)	(5.80)
Perfformiad	313	286	(27)	(8.63)
Cyfanswm	21,439	20,835	(604)	(2.82)
<u>Cyfraniadau/Ail-godiannau/Darpariaethau</u>				
Rhyddhad Ardrethi Annomestig yn ôl Disgresiwn	20	28	8	40.00
Gwarged y Gronfa Gasglu	(600)	(914)	(314)	52.33
Ffactor Swyddi Gwag Corfforaethol	819	0	(819)	(100.00)
Arbedion Rheoli Newid	(208)	(142)	66	(31.73)
Ymrwymadau o ran Diswyddo a'r EPP	1,222	1,094	(128)	(10.47)
Cyfalafu Costau Diswyddo	(750)	(622)	128	17.07
Cronfa a Glustnodwyd ar gyfer Cyflog Byw	(492)	(492)	0	0.00
Cyfraniad oddi wrth y Gronfa Risg Gorfforaethol	(169)	(169)	0	0.00
Cyfraniad oddi wrth Biffa	(100)	(100)	0	0.00
Darpariaeth Pengarnddu	0	1,950	1,950	n/a
Rhyddhad o'r Ddarpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg	0	(1,055)	(1,055)	n/a
Cyfanswm	(258)	(422)	(164)	(63.57)
Gwariant Net (cyn trosglwyddo i'r Gyllideb Wrth Gefn)	114,245	112,602	(1,643)	(1.44)
Trosglwyddo i'r Gyllideb Wrth Gefn	0	1,643	1,643	n/a
Gwariant Net (ar ôl trosglwyddo i'r Gyllideb Wrth Gefn)	114,245	114,245	0	0.00

Mae sefyllfa'r gwarged yn deillio o barhad y mentrau canlynol:

- Moratoriwm ar wariant nad yw'n hanfodol
- Gwella rheolaeth o gyllidebau adrannol
- Her y Bwrdd Rheoli Newid a'r Grŵp Llywio
- Her y Bwrdd Cyllideb
- Cyflwyno egwyddorion ailgynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gwasanaeth
- Fframwaith mwy cadarn ar gyfer rheoli swyddi gwag

Dyma'r symudiadau mwyaf arwyddocaol o'r gyllideb i'r alldro:

- Gwasanaethau Cymdeithasol - Gorwariant o £106,000 ar Gartrefi i'r Henoed dan reolaeth y Cyngor yn deillio o gostau cynyddol i gwrdd â gofynion gofal sylfaenol o fewn y cartrefi
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Tanwariant o £243,000 ar Leoliadau â Chymorth yn deillio o newidiadau i'r costau lleoli disgwylidig ac oedi wrth gael gafael ar becynnau gofal trosiannol
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Tanwariant o £147,000 ar Sefydliadau Preswyl Annibynnol yn deillio o'r newidiadau i'r lleoliadau a'r defnyddwyr gwasanaeth disgwylidig ynghyd â gweithio mewn partneriaeth
- Dysgu - Gorwariant o £260,000 ar Ddarpariaeth Uwch yn deillio o anghenion dysgu ychwanegol o fewn ysgolion
- Gwasanaethau Cymdogaeth - Tanwariant o £93,000 ar Waredu Gwastraff yn deillio o lai na'r disgwyl o wastraff gweddilliol
- Costau Corfforaethol - Tanwariant o £350,000 ar y Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor yn deillio o alw is na'r disgwyl a lleihad yn nifer y llwythi achosion
- Cyfraniadau/Ail-godiannau/Darpariaethau - Gwarged ychwanegol o £314,000 gan y Gronfa Gasglu yn deillio o gynnydd incwm trwy'r Dreth Gyngor
- Cyfraniadau/Ail-godiannau/Darpariaethau - Gwarged ychwanegol o £819,000 gan y Ffactor Swyddi Gwag Corfforaethol yn deillio o'r amser sy'n treiglo rhwng gwacáu a llenwi swyddi
- Cyfraniadau/Ail-godiannau/Darpariaethau - Tanwariant o £128,000 gan Gostau Diswyddo Gweithwyr Net yn deillio o daliadau llai na'r disgwyl yn sgil diswyddo gweithwyr ar sail wirfoddol
- Cyfraniadau/Ail-godiannau/Darpariaethau - Lleihad o £128,000 wrth Gyfalafu Costau Diswyddo oherwydd diffyg derbynebaw cyfalaf newydd i ariannu taliadau diswyddo gwirfoddol

Yn ogystal, wrth gau'r cyfrifon ar gyfer 2016/17, roedd angen cynnwys dau drafodyn ariannol mewnol sylweddol oedd heb eu cyllido, sef:

- Gosod Rhwymedigaeth ar Dir ym Mhengarnddu – darparwyd £1.950 miliwn yn y cyfrifon ar gyfer yr amcan gost o glirio gwastraff halogedig ar dir ym Mhengarnddu
- Rhyddhad rhag y Ddarpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg - rhyddheir swm o £1.055 miliwn o'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn dilyn adolygiad o'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo'r ddarpariaeth honno - o un a seiliwyd ar ganrannau sefydlog mewn perthynas gysylltiedig ag oedran y ddyled, i un sy'n cwmpasu data ynghylch tueddiadau

Cyfalaf

Yn 2016/17, gwariodd yr Awdurdod £15.6 miliwn ar brosiectau cyfalaf o'i gymharu â'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig o £18.5 miliwn fel a ganlyn:

Crynodeb	Cyllideb Ddiwygiedig 2016/17 £'000	Alldro £'000	Amrywiant	
			£'000	%
Gwariant				
Addysg	3,952	3,855	(97)	-2.45
Adfywio Ffisegol ac Amgylcheddol	5,473	5,115	(358)	-6.54
Tir ac Adeiladau	4,044	2,351	(1,693)	-41.86
Ffyrdd, Pontydd a Thrafnidiaeth	2,587	2,100	(487)	-18.82
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	850	616	(234)	-27.53
Corfforaethol	1,602	1,531	(71)	-4.43
Cyfanswm	18,508	15,568	(2,940)	-15.89
Ariannwyd gan:				
Benthyciadau	8,979	6,216	(2,763)	-30.77
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	8,067	8,067	0	0.00
Adnoddau CBS Merthyr Tudful ei Hun	1,462	1,285	(177)	-12.11
Cyfanswm	18,508	15,568	(2,940)	-15.89

Er nad oedd yr holl arian cyfalaf a gynlluniwyd yn cael ei ddefnyddio, ni cholli'r unrhyw arian wrth ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol 2017/18.

Dyma'r symudiadau mwyaf arwyddocaol o'r gyllideb i'r alldro:

- Adfywio Ffisegol ac Amgylcheddol - mae oedi sy'n deillio o waith annisgwyl yn golygu bod cyllid o £344,000 ar gyfer adnewyddu Castell Cyfarthfa yn cael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol 2017/18
- Tir ac Adeiladau - mae oedi yn y costau prynu tir arfaethedig wedi arwain at drosglwyddo £2 filiwn i'r flwyddyn ariannol 2017/18. Yn ogystal â hynny, gwariwyd £512,000 ar brynu cyfran Llywodraeth Cymru o Ganolfan Fusnes Orbit
- Ffyrdd, Pontydd a Thrafnidiaeth - o ganlyniad i dagfeydd traffig, roedd yn rhaid cwblhau gwaith mewn perthynas â Phrosiect Fiddlers Elbow cyn dechrau gwaith yn ymwneud â'r Slipffordd i'r De o Bont-y-gwaith, gan arwain at gario £337,000 ymlaen i'r flwyddyn ariannol 2017/18
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - mae gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau wedi arwain at danwariant o £234,000 mewn perthynas â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Iechyd Ariannol

Ar 31 Mawrth 2017, mae balansau a chronfeydd wrth gefn cyffredinol yr Awdurdod nad ydynt wedi'u clustnodi ar gyfer unrhyw ddiben, yn dod i £4.627 miliwn (31 Mawrth 2016 - £4.627 miliwn), sy'n cyfateb i 4% o'r Gwariant Refeniw Net a Gyllidebwyd gan y Cyngor ar gyfer 2017/18. Yn unol â Chylch Gorchwyl y Bwrdd Cyllideb, y nod cyffredinol yw:

"Cynnal balans digonol, iach ar gyfer y Cronfeydd Wrth Gefn, sef rhwng 3.5% a 4% o'r Gwariant Refeniw Net a gyllideb yn flynyddol gan y Cyngor, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn ariannol hyfyw."

Mabwysiadwyd y gofyniad hwn yn ffurfiol gan y Cyngor ar 22 Mawrth 2017 wrth iddo gymeradwyo'i Bolisi ar Gronfeydd wrth Gefn Corfforaethol, gan ganiatáu'r hyblygrwydd i:

- Ymateb yn ddigonol i'r risg o orwariant posibl ar gyllidebau mewn meysydd gwasanaeth anwadal
- Mynd i'r afael â goblygiadau ariannol yn sgil pwysau demograffig cynyddol
- Ymateb i'r gofyniad critigol am wariant "unwaith ac am byth" wrth gwrdd â blaenoriaethau corfforaethol
- Ymateb i ofynion llywodraethol a rheoleiddiol

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18, bu'r Awdurdod yn cyllidebu am gynnydd cymedrol mewn gwariant refeniw net o 0.46% yng nghyllideb 2016/17 (wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau net Llywodraeth Cymru i mewn i'r Setliad Llywodraeth Leol) yn sgil gostyngiad o 0.50% yng Nghyllid Llywodraeth Cymru. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod 2017/18 i 2020/21 yn amlinellu'n glir yr heriau ariannol a wynebwr gan yr Awdurdod dros y tymor canolig.

Cyfleusterau Benthycia

Bydd yr Awdurdod, pan fo'n briodol, yn benthycia gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), neu o'r Farchnad os ystyrir bod cyfraddau llog yn ffafriol, er mwyn rhannol ariannu prosiectau cyfalaf. Fel arfer, gwneir benthyciadau fel hyn ar sail hirdymor ac yn unol â'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Yn sgil hynny, caiff cyfyngiadau awdurdodedig ar gyfer benthycia gan Awdurdodau Lleol eu pennu a'u cymeradwyo gan gyfarfod llawn o'r Cyngor. Ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2016/17, roedd benthyciadau i gefnogi gwariant cyfalaf yn dod o fewn y terfynau benthycia awdurdodedig a gymeradwywyd gan gyfarfod llawn o aelodau etholedig y Cyngor ar 23 Mawrth 2016.

Yn ogystal, efallai y bydd rhaid i'r Awdurdod, wrth reoli trafodion arian parod o ddydd i ddydd, gael benthyciad ar sail fyrdymor pan fydd ganddo ddiffyg ar ei falans arian ar unrhyw ddiwrnod penodol. Yn groes i hynny, gall yr Awdurdod hefyd roi benthyciad ar sail fyrdymor pan fydd ganddo waged ar ei falans arian. Mae sefydliadau a gymeradwyir ar gyfer trafodion byrdymor yn cynnwys y prif fanciau a chymdeithasau adeiladu ym Mhrydain ac awdurdodau lleol eraill.

Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2016/17 yn cael ei lunio'n unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (yr IFRS) gyda'r cyfrifyddu ar gyfer "Buddion Ymddeol" yn seiliedig ar ddarpariaethau Safon Gyfrifyddu Rhyngwladol 19 (IAS 19) sef "Buddion Cyflogaeth". Yn ôl darpariaethau IAS 19 sy'n ymwneud â Buddion Ôl-Gyflogaeth, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gydnabod ased/rhwymedigaeth net a chronfa bensiwn wrth gefn yn y fantolen ac yng nghofnodion y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sy'n ymwneud â symud asedau/rhwymedigaethau ar gyfer cynlluniau buddion diffiniedig (gyda'r cofnodion cysoni yn mynd yn ôl at gyfraniadau oedd yn daladwy at ddibenion y Dreth Gyngor trwy Ddatganiad Symudiad y Cronfeydd Wrth Gefn).


O dan IAS 19, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu ei rwymedigaeth pensiwn o ran sefyllfa'r diffyg ar y gronfa bensiwn. Y rhwymedigaeth ar ddiwedd y flwyddyn oedd £179.4 miliwn (£167.1 miliwn ar 31 Mawrth 2016). Mae'r Awdurdod yn talu cyfraniadau cyflogwr fesul cam er mwyn gwneud iawn am ddiffyg y gronfa bensiwn.

Ceir rhagor o fanylion yn Nodiadau 25, 37 a 38 o'r Datganiad Cyfrifon.

Yr Hinsawdd Ariannol

Mae cynigion y Llywodraeth Ganolog i fynd i'r afael â'r diffyg a grëwyd gan fenthyciadau'r sector cyhoeddus cenedlaethol yn sgil yr argyfwng ariannol byd-eang, wedi arwain at lai o gyllid ar gyfer y sector cyhoeddus yn y tymor canolig a hir.

Amlinellir setliadau refeniw'r Cyngor am y cyfnod 2008/09 i 2017/18 isod. Dylid nodi bod effaith grant y Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor wedi'i eithrio ar gyfer 2013/14 er mwyn cael cymhariaeth ariannu decach.



Er 2011/12, mae'r Cyngor wedi bod trwy gyfnod o ostyngiadau ariannol nas gwelwyd o'r blaen, gan fod y Llywodraeth Ganolog yn parhau â'i pholisi o gyni cyllidol. Mae arferion gweithio mwy effeithlon wedi dod i'r brig wrth inni ddarparu gwasanaethau sy'n ariannol fforddiadwy. Mae hyn wedi cynnwys parhau â'n polisiau ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau gwirfoddol corfforaethol wrth inni symleiddio'r sefydliad i fodloni gofynion y dyfodol.

Mewn cyfnod o gyni, mae'n hanfodol trawsnewid yr Awdurdod i'w wneud yn addas i gwrdd â heriau ariannol y dyfodol. Mae hyn yn golygu alinio adnoddau prin â blaenoriaethau corfforaethol ac amcanion llesiant, gan sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon ac yn eu datblygu a'u gwella ymhellach.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (yr MTFP) 2017/18 i 2020/21 ar hyn o bryd yn nodi bod y Cyngor yn wynebu'r dasg o ganfod a chyflawni gostyngiadau i'r gyllideb o £6.012 miliwn ar gyfer 2018/19 a £16.358 miliwn ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2020/21. Yn absenoldeb unrhyw arwyddion o flaen setliad gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi cyllidebu ar gyfer gostyngiad ariannol hynod heriol o 4.5% y flwyddyn dros gyfnod yr MTFP, ac mae wrthi ar hyn o bryd yn ymdrin â chynigion i fynd i'r afael â'r diffygion cyllidebol rhagamcanol.

Bwriedir cyhoeddi'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2018/19 yn ystod mis Hydref 2017 a

rhagwelir y bydd yn cael effaith sylweddol ar y rhagamcanion presennol i leihau'r gyllideb dros y tymor canolig.

Gwybodaeth Bellach

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y cyfrifon ar gael gan yr Adran Gyllid, y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful. Mae hyn yn rhan o bolisi'r Awdurdod i ddarparu gwybodaeth lawn am faterion yr Awdurdod. Yn ogystal, mae gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb, yr hawl statudol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Mae'r wasg leol yn hysbysebu'r adegau hynny pryd y gellir archwilio'r cyfrifon.



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2016/17

MEDI 2017

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL – 2016/17****1. CWMPAS CYFRIFOLDEB**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (y Cyngor) yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau sy'n sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y maent yn gweithredu eu swyddogaethau, ac i wneud hynny trwy ganfod eu blaenoriaethau eu hunain.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang hyn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi dulliau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, yn ogystal â hyrwyddo effeithiolrwydd ei weithgareddau sy'n cynnwys trefniadau rheoli risg.

Cyhoeddwyd canllawiau newydd o'r enw *Delivering Good Governance in Local Government: Framework (CIPFA/Solace, 2016)* sy'n ymwneud â'r datganiadau llywodraethu blynyddol a baratoir o'r flwyddyn ariannol 2016/17 ymlaen.

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf, gan gynnwys llywodraeth leol, i ystyried y tymor hirach wrth lunio'u penderfyniadau a chydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodol i osod amcanion llesiant sy'n gwneud y mwyaf o'u cyfraniad tuag at gyflawni nodau llesiant. Rhaid gosod a chyhoeddi amcanion llesiant cyntaf y cyrff cyhoeddus erbyn 31 Mawrth 2017 fan pellaf. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at fodloni'u hamcanion llesiant.

Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus (y PSBs) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol gydag aelodau statudol. Aelodau statudol y PSB yw'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub, a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae gofyn i bob PSB wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd trwy weithio i gyflawni'r nodau llesiant. Wrth gyfrannu at gyflawni'r nodau, mae'n rhaid i'r PSB baratoi a chyhoeddi Asesiad o Lesiant Lleol erbyn Mai 2017, paratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol erbyn Mai 2018, a pharatoi Adroddiad Cynnydd Blynyddol yn nodi'r camau y mae wedi'u cymryd ers cyhoeddi ei gynllun llesiant lleol mwyaf diweddar, er mwyn bodloni'r amcanion a nodir yn y cynllun.

Mae'r Ddeddf yn ganolog i bolisi hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus ac mae ei themâu yn cyd-fynd â'r Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus (CIPFA/IFAC, 2014), a dyna sydd wrth wraidd y ddogfen *Delivering Good Governance in Local Government: Framework (CIPFA/Solace, 2016)*.

Mae gan y Cyngor God Llywodraethu Corfforaethol Lleol ar waith. Mae hyn yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd i adlewyrchu gofynion y ddogfen *Delivering Good Governance in Local Government: Framework (CIPFA/Solace, 2016)*.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol hwn yn egluro'r modd y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r ddogfen *Delivering Good Governance in Local Government: Framework (CIPFA/Solace, 2016)* a'r modd y mae'n bodloni gofynion Rhan 3 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

2. PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae llywodraethu yn ymwneud â'r modd y mae cyrff llywodraeth leol yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, i'r bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol.

Mae Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli gweithgareddau'r Cyngor. Mae hefyd yn ymgorffori'r modd y mae'n arwain y gymuned, yn rhoi cyfrif iddi ac yn ymgysylltu â hi. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro cyflawniad ei Flaenoriaethau Corfforaethol ac ystyried a yw hyn wedi arwain at well canlyniadau i'r dinesydd. Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi'i lunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiau a blaenoriaethau; gall felly ond â rhoi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod.

Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau wrth gyflawni Polisiau a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor. Hefyd, mae'n gwerthuso'r risgiau o ran eu tebygolrwydd a'u heffaith, ac yn nodi'r modd y gellid eu rheoli.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith bob blwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei Fframwaith Llywodraethu, gan gynnwys y System Rheolaeth Fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd yn cael ei lywio gan waith a gynhelir gan asiantaethau allanol a threfniadau mewnol, gan gynnwys trefniadau rheoli perfformiad.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yn y Cyngor am y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2017, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol a'r Datganiad Cyfrifon.

3. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r canlynol yn ddisgrifiad o'r strwythurau a'r prosesau sy'n cynnwys trefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys trefniadau ar gyfer:

(a) Nodi a chyfathrebu gweledigaeth yr Awdurdod o'i ddiben ac o'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni ar gyfer ei ddinasyddion a'i ddefnyddwyr gwasanaeth:

Amlinella'r Cynllun Corfforaethol ein huchelgais ar gyfer Merthyr Tudful hyd at 2017. Y Cynllun Corfforaethol yw prif offeryn y Cyngor i gyfathrebu'i ddiben, ei weledigaeth a'r hyn y mae'n bwriadu ar gyfer ei ddinasyddion a'i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi prif flaenoriaethau'r Cyngor a chyfeirir atynt fel ein Meysydd Blaenoriaeth. Mae'r rhain yn cefnogi'r Weledigaeth a'r Canlyniadau Blaenoriaethol a nodwyd ar gyfer Merthyr Tudful ac a nodwyd yng Nghynllun Integredig Sengl y Fwrdeistref Sirol 2013-2017.

Canlyniadau Blaenoriaethol y Cynllun Integredig Sengl	Meysydd Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol 2013-2017
Sicrhau fod gan bobl Merthyr Tudful y cyfle a'r dyhead i ddysgu a datblygu eu sgiliau er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu potensial.	Codi Safonau Cyrhaeddiad
Sicrhau fod pobl Merthyr Tudful yn elwa ar economi gref, gynaliadwy ac amrywiol.	Datblygu'r Economi Cyflogadwyedd
Sicrhau fod pobl sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful yn cael eu cefnogi i fwynhau bywyd iachach ac o ansawdd gwell.	Hyrwyddo Annibyniaeth Cwrdd ag Anghenion Plant Bregus Ffyrdd Weithgar o Fyw
Sicrhau fod pobl yn mwynhau amgylchedd bywiog, deniadol, diogel a chynaliadwy i weithio, byw a chwarae ynddo ac i ymweld ag e.	Amgylchedd Cynaliadwy

Cyfrifoldeb Bwrdd Gwasanaeth Lleol Merthyr Tudful oedd cyflwyno'r Cynllun Integredig Sengl tan iddo gael ei ddisodli gan Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Cwm Taf ym mis Mai 2016.

Yn sgil cyflwyno'r Ddeddf, gwnaed cryn dipyn o waith paratoadol i sicrhau bod y Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn sefyllfa dda i fodloni'r gofynion a nodir uchod.

Cytunodd Byrddau Gwasanaeth Lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf a Phartneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf, ar ddull integredig i gyflawni asesiad

anghenion y Ddeddf hon ynghyd â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Cafodd Asesiad Llesiant Cwm Taf ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 22 Chwefror 2017 a'i gyhoeddi ar 31 Mawrth 2017 trwy wefan "Ein Cwm Taf" (www.eincwmtaf.cymru)

Ymgysylltwyd â chymunedau, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth, a gwnaed defnydd priodol o ymchwil genedlaethol a rhyngwladol. Llwyddodd y gweithgareddau ymgysylltu a'r gwaith maes i gynhyrchu gwybodaeth a gynorthwyodd i lunio'r amcanion Llesiant.

Cafodd Datganiad Llesiant cychwynnol y Cyngor (ynghyd â'r Amcanion Llesiant) ar gyfer 2017-2022 eu hadrodd i'r Cyngor Llawn ar 22 Mawrth 2017 a chytunwyd arnynt. At hynny, maent wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor (www.merthyr.gov.uk). Mae'r gwaith o fireinio'r Datganiad Llesiant wedi parhau a datblygwyd cynllun i ddangos sut y bydd y Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol i ddiwallu'r amcanion hynny. Cafodd y Cynllun ei adrodd i'r Cyngor Llawn ar 26 Gorffennaf 2017 ac fe'i cymeradwywyd.

(b) Adolygu'r weledigaeth ar gyfer Merthyr Tudful a'i goblygiadau ar gyfer trefniadau llywodraethu'r Cyngor:

Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu a datblygu'r uchod. Bydd yr adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu yn ystyried unrhyw newidiadau i'r Weledigaeth yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun Integredig Sengl sy'n cynnwys y weledigaeth ar gyfer Merthyr Tudful, wedi bod yn destun adolygiad gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Cynhaliwyd Adolygiad Canol Tymor yn ystod 2015/16.

Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn cynhyrchu Cynllun Corfforaethol - Dogfen Gyflawni Flynyddol sy'n rhoi diweddariad i'r Cynllun Corfforaethol ar sail newidiadau cenedlaethol (deddfwriaeth newydd), gweithgareddau a gynlluniwyd, a gwersi a ddysgwyd o'r hunanwerthuso yn ystod y flwyddyn. Adroddwyd ynghylch y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2016/17 i'r Cyngor Llawn ym mis Mehefin 2016. Cafodd Gweledigaeth a Blaenoriaethau'r Cyngor eu hadolygu unwaith eto yn hwyrach yn 2016 a chadarnhawyd y blaenoriaethau a nodwyd.

(c) Trosi'r weledigaeth yn amcanion ar gyfer yr awdurdod a'i bartneriaethau:

Nododd y Cynllun Integredig Sengl ganlyniadau clir a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl.

Cefnogodd y Cynllun Corfforaethol y weledigaeth a'r canlyniadau blaenoriaethol a nodwyd ar gyfer Merthyr Tudful yng Nghynllun Integredig Sengl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol 2013-2017.

Roedd blaenoriaethau'r Cynllun Integredig Sengl yn canolbwyntio ar wneud cynnydd ar ganlyniadau mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, tra bod blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio ar y rhai sy'n gyfrifoldeb i'r Cyngor yn bennaf.

Yn unol â'r Ddeddf, cynhaliwyd Asesiad Llesiant a defnyddiwyd y canlyniadau i lunio'r Amcanion Llesiant. Manylwyd ar y rhain yn Natganiad Llesiant y Cyngor ar gyfer 2017/18. Mae

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn defnyddio'r Asesiad Llesiant i lywio'r Cynllun Llesiant Lleol sy'n nodi ei amcanion lleol a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i'w diwallu.

(d) Mesur ansawdd y gwasanaethau i ddefnyddwyr gan sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno yn unol ag amcanion y Cyngor i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau:

Yn ystod 2016/17, cynhaliwyd rhaglen o heriau gwasanaeth trwy'r Bwrdd Perfformiad a oedd yn adolygu hunanwerthusiadau ac yn herio perfformiad y gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Perfformiad yn helpu'r Cyngor i ganfod meysydd i'w gwella o fewn y gwasanaethau a chaiff hyn ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu.

Cydlynir gwybodaeth am berfformiad lleol a chenedlaethol trwy'r Adroddiadau Craffu. Caiff yr adroddiadau hyn eu cyd-baratoi ar gyfer y gwasanaeth gan y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Perfformiad. Mae'r adroddiadau yn cael eu cyhoeddi ac maent yn cwmpasu'r dangosyddion a'r prosiectau a ddarperir gan wasanaethau'r Cyngor o fewn blaenoriaethau'i Gynllun Corfforaethol.

Caiff gwerth am arian y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor ei ystyried fel rhan o'r Fframwaith a fabwysiadwyd ganddo i Hunanwerthuso/Herio Perfformiad y Gorfforaeth. Mae hyn yn dechrau dylanwadu ar y modd y caiff adnoddau prin eu dyrannu wrth lunio cyllidebau.

Mae proses gyllidebol y Cyngor yn pennu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'i wasanaethau a'i Flaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer Gwelliant, ac mae'n cynnwys adolygiad o'r defnydd cyffredinol a wneir o adnoddau.

Sefydlwyd y Bwrdd Caffael ym mis Awst 2016 ac mae'n gorff llywodraethu ar gyfer pob gweithgaredd caffael o fewn CBSMT.

Rhaid gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd Caffael ar gyfer gweithgareddau tendro ar draws yr holl Gyngor. Mae'n hanfodol fod gwariant trydydd parti yn cael ei reoli'n eglur ac ar lefel uchel er mwyn sicrhau bod caffael yn cyfrannu at leihad yn y gwariant ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae'r Bwrdd Caffael yn allweddol i sicrhau bod yna reolaethau llywodraethu cyffredin yn cael eu cyflwyno ar draws amrywiol wasanaethau'r Cyngor.

Mae Cynllun Gwaith Blynnyddol yr Archwiliad Mewnol yn cynnwys adolygu'r defnydd o adnoddau.

Defnyddir ymgynghoriad i fesur y modd y mae'r cyhoedd yn deall y gwasanaethau a ddarperir.

Nod y broses hunanwerthuso yw sicrhau bod gan bob maes gwasanaeth drefniadau cadarn ar waith i ddarparu gwybodaeth fel y gellir mesur ansawdd y gwasanaeth.

Fel rhan o'r Adolygiad Partneriaeth a gynhaliwyd yn 2015/16, gwnaed cynigion sydd bellach ar waith. Bydd y rhain yn lleihau costau mewn perthynas ag amser staff trwy symleiddio strwythurau'r partneriaethau.

Mae'r Fframwaith Gwella Gwasanaeth yn nodi elfennau allweddol y broses a ddefnyddir i gynllunio gwelliannau'r Cyngor. Mae'r Fframwaith Gwella Gwasanaeth wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau yn nulliau gweithredu'r Cyngor er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys diweddarau cylch gorchwyl yr Uwch Dîm Arwain er mwyn darparu'r cyfle i gyd-drafod a herio ystod o bynciau sy'n berthnasol i redeg y Cyngor yn llwyddiannus, gan gynnwys trafod a herio'r camau a gymerwyd i fodloni'r amcanion lles.

Mae'r weithdrefn gwyno wedi'i hadolygu ac ym mis Medi 2014, cafodd y model a ddiweddarwyd ei gyflwyno i'r Cyngor a'i fabwysiadu ganddo.

(e) Diffinio a dogfennu rolau a chyfrifoldebau'r aelodau gweithredol ac anweithredol ynghyd â swyddogaethau craffu a swyddogion, gyda threfniadau dirprwyo clir a phrotocolau cyfathrebu effeithiol:

Mae'r Cyngor yn nodi rolau a chyfrifoldebau priodol ar gyfer cynghorwyr ac uwch swyddogion yn ei Gyfansoddiad.

Mae holl bwyllgorau a chyrff y Cyngor wedi'u nodi yn ei Gyfansoddiad. Mae'r Cynllun Dirprwyo yn manylu'r cyfrifoldeb am y swyddogaethau a'r penderfyniadau, ac yn nodi pa gorff neu berson all lunio'r penderfyniadau hynny sy'n arwain at gamau gweithredu neu beidio.

Mae'r Cyfansoddiad yn gosod allan protocol y berthynas rhwng cynghorwyr a swyddogion ynghyd â rôl benodol y cynghorwyr a'r swyddogion a'r berthynas ddylai fodoli rhyngddynt.

(f) Datblygu, cyfathrebu ac ymgorffori codau ymddygiad, gan ddiffinio safonau ymddygiad yr aelodau a'r staff:

Mae codau ymddygiad ar waith sydd wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol a'u cyfleu i'r holl staff perthnasol. Mae'r Cod Ymddygiad Cyflogaion a'r Cod Ymddygiad Aelodau yn ffurfio rhan o'r Cyfansoddiad. Mae copïau o Godau hefyd ar gael ar safleoedd Mewnwyd a Rhyngwyd y Cyngor. Cynhyrchir llyfrynau a'u dosbarthu i weithwyr a chynghorwyr yn ôl y gofyn. Rhaid i aelodau lofnodi Datganiad Derbyn Swydd lle cytunant i gadw at God Ymddygiad yr Aelodau.

Mae safonau ymddygiad wedi'u manylu o fewn y Codau Ymddygiad. Mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu set o werthoedd craidd ac ymddygiadau cysylltiedig sy'n tanategu'r ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu ac mae'n cynnwys: bod yn onest ac yn agored, ymddiriedaeth a pharch, atebolrwydd, dysgu, dyhead, gweithio fel rhan o dîm, a chyfathrebu.

Mae'r Llawlyfr Staff hefyd yn manylu'r saith egwyddor sydd a wnelo â bywyd cyhoeddus sef: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth, a disgwylir i'r holl weithwyr lynu wrth y safonau ymddygiad hyn. At hynny,

mae'n datgan bod disgwyl i weithwyr y Cyngor arddangos y safonau ymddygiad uchaf a gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n broffesiynol, yn barchus ac yn gywir.

Mae pawb sy'n dechrau gyda'r Cyngor yn cael copi o God Ymddygiad Cyflogeion ac mae'n rhaid iddynt lofnodi eu bod yn ei dderbyn. Mae pob aelod staff wedi cael Llawlyfr Staff sy'n rhoi crynodeb o bolisiau ac arferion gwaith perthnasol gan gynnwys y Cod Ymddygiad.

Mae ymddygiad y cynghorwyr wedi'i nodi yn Rhan 4 y Cyfansoddiad - Rheolau Gweithdrefn y Cyngor.

(g) Adolygu a diweddarau rheolau sefydlog, cyfarwyddiadau ariannol sefydlog, cynllun dirprwyo ac ategu nodiadau/llawlyfrau gweithdrefnol, sy'n diffinio'n glir sut y gwneir penderfyniadau a'r prosesau a'r rheolaethau sy'n ofynnol i reoli risgiau:

Mae'r Cyfansoddiad wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau o ran trefniadau gwleidyddol y strwythur rheoli ac o ran strwythur sefydliadol y Cyngor. Yn ogystal, cafwyd nifer o newidiadau yn sgil Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu, y ffordd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae'r Cyfansoddiad yn diffinio'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau, rôl y Cyngor, y Cabinet, y Pwyllgorau a'r broses sy'n pennu penderfyniadau allweddol y Cyngor. Manylir y cynlluniau dirprwyo er mwyn pennu swyddogaethau'r Cyngor, y Cabinet, Aelodau'r Cabinet, y Pwyllgorau a'r Swyddogion.

Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys, ymysg pethau eraill, Rheolau Gweithdrefn gan gynnwys y Rheolau Gweithdrefn Ariannol a'r Rheolau Caffael a Chontractio. Cafodd y Rheolau Caffael a Chontractio eu diwygio a'u cymeradwyo ym mis Ebrill 2014. Mae'r Rheolau wedi cael eu diwygio ymhellach i adlewyrchu Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a'r Datganiad Polisi Caffael Cymru diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015. Cymeradwywyd y gwelliannau hyn gan y Cyngor Llawn ym mis Ionawr 2016. Mae'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol wedi cael eu hadolygu. Cydnabyddir bod angen eu diwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i strwythurau, systemau a phrosesau'r Cyngor ac mae gwaith i'r perwyl hwnnw ar y gweill.

Mae gan y Pwyllgor Archwilio rôl yn y dasg o adolygu a chraffu priodoldeb y trefniadau ar gyfer Rheoli Risg y Cyngor, a dylai hynny gael ei gefnogi a'i lywio gan Bolisi a Strategaeth Rheoli Risg.

Er mwyn tanlinellu pwysigrwydd Rheoli Risg ar draws y Cyngor, penodwyd Dirprwy Arweinydd y Cyngor i fod yn Hyrwyddwr Rheoli Risg yn unol â'r Polisi a'r Strategaeth. Mae'r Polisi a'r Strategaeth hefyd yn nodi'n glir y Rolau a'r Cyfrifoldebau Rheoli Risg ar draws y Cyngor, gan gynnwys rhai ar gyfer y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr, y Penaethiaid Gwasanaeth, y Rheolwyr Gweithredol/Tîm, y Gweithwyr a'r Cynghorwyr.

Cafodd Polisi a Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor ei ddiwygio a'i ddiweddarau ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 16 Gorffennaf 2014. Mae yna gofrestrau risg ar waith sy'n nodi'r peryglon a'r materion a allai atal neu rwystro Strategaethau Corfforaethol y Cyngor rhag cael eu cyflawni. Mae Bwrdd Perfformiad y Cyngor yn chwarae rhan annatod wrth adrodd ynghylch y Cofrestrau Risg. Mae hynny'n galluogi'r Cyngor i herio gwasanaethau ynghylch risgiau a phroblemau, ac i ganfod unrhyw risgiau a phroblemau newydd sy'n dod i'r amlwg.

(h) Ymgymryd â swyddogaethau craidd Pwyllgor Archwilio, fel y nodwyd yn nogfen CIPFA, *Audit Committees – Practical Guide for Local Authorities*:

Mae'r Cyngor yn meddu ar Bwyllgor Archwilio gweithredol ac effeithiol sy'n cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae gan y Pwyllgor Archwilio Gylch Gorchwyl cyfredol sydd wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau arfer gorau ac yn mynd i'r afael â swyddogaethau craidd y pwyllgorau archwilio fel y nodwyd yn nogfen CIPFA sef *Audit Committees – Practical Guide for Local Authorities*.

(i) Sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol, polisiau a gweithdrefnau mewnol, a bod y gwariant yn gyfreithlon:

Mae'r Cyngor yn gweithredu Fframwaith ar gyfer Gweithdrefnau, Rheolau a Pholisiau sy'n nodi'r modd y penderfynir ar bolisiau. Perfformir rolau allweddol gan swyddogion statudol sy'n cynnwys Pennaeth y Gwasanaeth Taledig, y Swyddog Monitro, Swyddog yr Adran 151, y Prif Swyddog Addysg, a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cynhelir rhaglen waith reolaidd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol sy'n adolygu cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau sefydledig a'r rheolaethau disgwylidig. Yn ogystal â hynny, mae Pwyllgorau Craffu a'r Asiantaethau Archwilio ac Arolygu Allanol yn cyfrannu at yr adolygiad o gydymffurfiaeth y Cyngor â'i bolisiau, gweithdrefnau, chyfreithiau a rheoliadau.

Sefydlwyd Fframwaith Rheoli Risg sy'n anelu at ymgorffori rheolaeth risg fel ei bod yn rhan o reolaeth weithredol a strategol y Cyngor. Caiff y risgiau allweddol eu nodi yn y Cofrestrau Risg Gwasanaeth ac mae Cofrestr Risg Gorfforaethol a Strategaeth Rheoli Risg wedi'u mabwysiadu.

Mae'r Cyngor yn gosod cyllideb gytbwys gyda chyllidebau refeniw a chyfalaf yn cael eu hintegreiddio'n flynyddol. Caiff hyn ei ymgorffori trwy gynhyrchu Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) sy'n nodi'r gwariant a'r incwm tebygol dros 4 blynedd. Mae hyn yn arwain at gynllunio mwy penodol wrth ddarparu gwasanaethau i'r dyfodol ac yn cysylltu â lefel yr adnoddau a allai fod ar gael. Cyflwynir y CATC i'r Cyngor fel rhan o'r broses gosod cyllidebau.

Mae'r CATC yn nodi'r sialensiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor dros y 4 blynedd dan sylw mewn perthynas â gostyngiadau i'r gyllideb a seiliwyd ar ragdybiaethau'r Cynllun. Mae dadansoddiad o sensitifrwydd hefyd yn cael ei ystyried wrth gynllunio senarios sy'n seiliedig ar

ragdybiaethau allweddol, yn enwedig mewn perthynas â chyllid Llywodraeth Cymru i'r dyfodol. Cyflwynir y CATC hwn i'r Cyngor fel rhan o'r broses gosod cyllidebau.

Mae'r cynigion cyllideb refeniw a gwariant cyfalaf dros gyfnod y CATC yn amodol ar graffu, adolygu a herio'n gadarn drwy'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Aelodau Portffolio, Gweithdai'r Cabinet, y Cabinet Ffurfiol, y Cyd-bwyllgor Craffu/Archwilio a'r Cyngor.

Mae terfynau priodol wedi'u cymeradwyo yn unol â'r Cod Darbodus ar Gyfrifyddu Cyfalaf. Caiff cyllidebau eu monitro'n rheolaidd ac mae aelodau'n derbyn gwybodaeth ariannol sy'n berthnasol, yn ddealladwy ac yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol. Cedwir golwg barhaus ar y cronfeydd ariannol wrth gefn. Mae Bwrdd y Gyllideb, a grëwyd yn 2014/15, wedi cael effaith sylweddol ar atebolrwydd o ran rheoli cyllidebau. At hynny, cafwyd gwarged ar alldro refeniw'r gyllideb ar gyfer 2014/15, 2015/16 a 2016/17 a chadwyd balans digonol, iach ar y cronfeydd cyffredinol wrth gefn.

Mae'r Gwasanaeth Cyfrifeg yn darparu gwybodaeth amserol a chywir i gynorthwyo rheolwyr i wneud penderfyniadau. Caiff Datganiadau Monitro'r Gyllideb eu llunio'n fisol a'u rhoi i ddeiliaid cyllidebau. Cynhelir cyfarfodydd â deiliaid y gyllideb i drafod sefyllfa'r gyllideb. Caiff Adroddiadau Monitro Refeniw Chwarterol eu llunio a'u hadrodd i'r Cabinet er mwyn hysbysu'r Cabinet o sefyllfa ariannol y gyllideb refeniw, gan gynnwys alldro rhagamcanol am y flwyddyn ariannol.

Ar gyfer hanner cyntaf 2016/17, roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu ar oddeutu 50% o'i adnoddau llawn. Aethpwyd ati i recriwtio fel mater o flaenoriaeth er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon, ac erbyn mis Medi 2016 roedd y Gwasanaeth yn meddu ar 83% o'i adnoddau ac erbyn wythnos gyntaf mis Hydref 2016, llwyddodd i gyrraedd 100%. Roedd Cynllun Archwilio 2016/17 yn barod i ystyried adnoddau ac, yn gyffredinol, er bod lefel y cwmplas yn is na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol, cafodd yr holl aseiniadau archwilio oedd â'r flaenoriaeth uchaf eu cwblhau o fewn y cyfnod. Roedd hyn yn caniatáu i'r Rheolwr Archwilio gynhyrchu ei Adroddiad Blynnyddol ac ymgorffori ei farn ar y Fframweithiau Rheoli Risg, Llywodraethiant a Rheolaeth Fewnol oedd ar waith yn y Cyngor yn ystod 2016/17.

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio ag ISO 27001, sef y safon ryngwladol ar gyfer diogelu gwybodaeth. Mae ISO 27001 yn darparu fframwaith ar gyfer System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth (ISMS) sef dull systematig o reoli data'r Cyngor fel ei fod yn parhau'n ddiogel. Mae'n cynnwys pobl, prosesau a systemau TG trwy ddefnyddio proses rheoli risg.

Mae gan y Cyngor bolisiau ar waith i reoli data a chaiff y rhain eu hadolygu'n flynyddol neu'n gynharach os bydd busnes yn galw am hynny. Mae'r Fforwm Llywodraethu Gwybodaeth (yr IGF) ar gael ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o wahanol feysydd gwasanaeth ar draws y Cyngor. Pwrpas y Fforwm yw adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu gwybodaeth CBSMT o ran eu datblygu, eu gweithredu, eu rheoli a'u monitro'n strategol.

Gwnaed cryn dipyn o waith i sicrhau bod yr Awdurdod yn barod i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth newydd ar Ddiogelu Data, sef y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, pan ddônt i rym. Mae gan y Cyngor tan 25 Mai 2018 i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd. Atgoffir yr Aelodau am eu dyletswyddau o ran datgelu a dim datgelu gwybodaeth, ac mae pob adroddiad yn mynd i Gyfarfod Cynllunio Agenda cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor fel y gellir herio unrhyw benderfyniad i gyfyngu ar yr hawl i'w gweld.

(j) Adolygu effeithiolrwydd y fframwaith ar gyfer canfod a rheoli risgiau a dangos atebolrwydd clir:

Mae gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Risg gymeradwy sy'n cynnwys Datganiad Polisi Rheoli Risg Corfforaethol. Mae'r Strategaeth a'r Datganiad Polisi cynhwysol yn cael eu diwedddaru'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfoes ac i adlewyrchu ymagwedd y Cyngor tuag at Reoli Risg. Mae Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor wedi diwedddaru'i dulliau rheoli risg mewn perthynas â phartneriaethau, ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2014.

Mae pob Prif Swyddog yn meddu ar Gofrestr Risg weithredol sy'n nodi'r pergylon a'r materion a allai atal neu rwystro Strategaethau Corfforaethol y Cyngor rhag cael eu cyflawni. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn meddu ar Gofrestr Risg weithredol hefyd. Paratowyd Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer 2016/17 gan ddefnyddio cyfuniad o'r ffynonellau risg canlynol:

- Risgiau corfforaethol a nodwyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer 2015/16.
- Dadansoddi a grwpio:
 - y risgiau a gafodd sgôr o 12 neu uwch yng Nghofrestrau'r Prif Swyddogion Cyllid a'r Cofrestrau Risg Gwasanaeth;
 - y problemau a nodwyd yng Nghofrestrau'r Prif Swyddogion a'r Cofrestrau Risg Gwasanaeth.

Dyrannwyd pob Risg Gorfforaethol ar gyfer 2016/17 i Gyfarwyddwr Arweiniol sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu risgiau corfforaethol yn cael eu monitro, eu cofnodi a'u rheoli. Yn ogystal â hynny, cafodd Aelodau Cabinet priodol eu nodi fel Cynghorwyr Arweiniol ar gyfer risgiau corfforaethol penodol yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol am 2016/17.

Cafodd Adroddiad Blynnyddol Cynnydd Rheoli Risg y Cyngor a'r Gofrestr Risg Corfforaethol Diwygiedig ar gyfer 2016/17, eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2016 ac i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2016.

Cyflwynwyd adroddiad ar y cynnydd i'r gwaith o reoli holl Risgiau Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2016/17, i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr a Chwefror 2017.

Mae Rheoli Risg yn parhau i fod yn rhan annatod o'r prosesau sy'n ymwneud â'r Rhaglen Trawsnewid a Chynllunio Ariannol a'r broses o osod Cyllideb y Cyngor.

Ymgwymerwyd â hunanasesiad o drefniadau Rheoli Risg Corfforaethol y Cyngor (fel y safant ar 31 Mawrth 2017) er mwyn sefydlu lefel aeddfedrwydd risg y Cyngor.

Mae hunanasesiad drafft o lefel aeddfedrwydd risg y Cyngor wedi dangos bod Rheolaeth Risg Lefel 3/4 yn cael ei gweithredu, ei hymgorffori a'i hintegreiddio o fewn y sefydliad. Y cam nesaf yw cyflwyno'r hunanasesiad er ystyriaeth, her, a chytundeb terfynol y Tîm Rheoli Corfforaethol ar lefel yr aeddfedrwydd risg.

(k) Chwythu'r chwiban a threfniadau ar gyfer derbyn ac ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd:

Mae Polisi a Gweithdrefn y Cyngor ar gyfer Chwythu'r Chwiban wedi'u cynnwys yn y Cyfansoddiad ac fe'u diweddarwyd yn unol â deddfwriaeth ym mis Rhagfyr 2014. Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r broses a hysbysebwyd y trefniadau gan bosteri. Mae arolwg staff yn awgrymu eu bod yn ymwybodol o'r broses. Er hynny, mae angen gwneud gwaith pellach i hybu hyder y staff yn y broses a sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth a mynediad llawn.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Safonau yn nodi nifer a chanlyniadau'r atgyfeiriadau a wnaed dros y tair blynedd diwethaf yn sgil chwythu'r chwiban. Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Safonau ar 18 Tachwedd 2016 i roi diweddariad ynghylch dwy gŵyn oedd heb eu datrys pan gyfarfu'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2016.

Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau ym mis Gorffennaf 2017 ynghylch cwynion a ddaeth i law rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

At hynny, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd. Bwriedir adolygu a diweddarau'r Polisi hwn yn 2017/18.

Ar 10 Medi 2014, cytunodd y Cyngor ar Bolisi Cwynion Corfforaethol - Polisi Cwsmer a Pholisi Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae'r ddau Bolisi ar gael ar y Rhyngwrdd. Mae Polisi Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gydnaws â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Trwy hynny, mae'r broses gwyno ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyson â Chanllawiau'r Polisi Enghreifftiol ar gyfer Pryderon a Chwynion ynghyd â Gweithdrefn Gwyno'r GIG "Gweithio i Wella".

Yn ôl Rheoliadau Gweithdrefnau Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Craffu ar y modd yr ymdrinnir â chwynion ac achosion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ac ar y modd yr ymchwilir iddynt. Mae adroddiad sy'n manylu perfformiad yn 2016/17 yn cael ei lunio ar hyn o bryd ar gyfer y Pwyllgor Craffu.

O ran Cwynion Corfforaethol, cydnabuwyd bod yna feysydd lle gellid gwneud gwelliannau. Y bwriad yw ymgymryd â gwaith ymchwil i ganfod sut y gallwn wella'r modd yr ydym yn cofnodi

ac yn lledaenu'r gwersi a ddysgwyd gennym o'r cwynion, y sylwadau a'r ganmolïaeth a ddaeth i law.

(l) Canfod anghenion datblygu'r aelodau a'r uwch swyddogion o ran eu rolau strategol a darparu hyfforddiant priodol ar eu cyfer:

Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys polisiau sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad Cyflogaion, Rheolau Gweithdrefn Ariannol, Rheoli Caffael a Risg, Iechyd a Diogelwch, Chwythu'r Chwiban ac ati. Gwahoddir pob Cyngorydd i fynychu hyfforddiant cynefino ar gael eu hethol ac ni chânt ymgymryd â'u swydd hyd nes eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Darperir hyfforddiant i Gynghorwyr yn seiliedig ar eu dadansoddiad o anghenion hyfforddiant. Mae arweinwyr pleidiau hefyd yn cynnal cyfarfodydd 1:1 â'u haelodau ac yn cynhyrchu cynlluniau datblygu personol ar eu cyfer.

Darparwyd Hyfforddiant i Gynefino â Chyllid ar gyfer yr holl Gynghorwyr yn 2012/13, ac ym mis Mai 2017 yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol.

At hynny, mae amrywiaeth o wasanaethau'n cynnal hyfforddiant i Gynghorwyr newydd yn ystod 2017.

Cynhelir Asesiadau o Anghenion Hyfforddi ar gyfer meysydd sgiliau penodol o bryd i'w gilydd. Mae gan y Cyngor Swyddogion Hyfforddi sy'n trefnu cyrsiau ar gyfer y staff.

Mae'r Cyngor yn cynnal proses "Un i Un ac Adolygiad/Arfarniad Blyneddol" ar gyfer y staff.

Mae gan y Cyngor Bolisi Galluogrwydd a'i amcan yw sefydlu ymagwedd adeiladol a theg tuag at wella perfformiad gwaith trwy gynnig goruchwyliaeth, mentora a hyfforddiant effeithiol a sesiynau un-i-un ar sail reolaidd. Cefnogir hyn gan Weithdrefn Galluogrwydd.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn yr holl ymarferion meincnodi gyda CLILC er mwyn gweithredu arferion gorau. O ganlyniad uniongyrchol i'r ymarferion meincnodi ac ymchwil a gynhaliwyd gan yr Adran yn 2016/17, lluniwyd achos busnes ar gyfer Swyddog Systemau Adnoddau Dynol pan sefydlwyd nad oedd yna ystod lawn o wybodaeth reoli ar gael i reolwyr y Cyngor.

Mae'r data rheoli gwybodaeth, y siartiau strwythur diweddaraf, y disgrifiadau swyddi a'r tryloywder yng nghontractau gweithwyr asiantaeth, wedi caniatáu i'r Adran AD weithredu cynllun gweithlu ar gyfer pob maes gwasanaeth a chynorthwyo meysydd gwasanaeth â'u hachosion busnes petai diswyddiadau'n cael eu hystyried yn eu maes gwasanaeth.

Mae gwasanaethau datblygu'r gweithlu wedi cydweithio â'r Adran Adnoddau Dynol er mwyn galluogi'r meysydd gwasanaeth unigol i gynllunio hyfforddiant ar gyfer y staff cymorth hynny a fydd efallai'n newid eu rôl o ganlyniad i'r agenda drawsnewid.

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn cyfrannu at y Cynllun Datblygu Sefydliadol trwy ystyried sgiliau a gallu'r staff i gyflawni canlyniadau a thargedau allweddol trwy'r Achosion Busnes, gan liniaru'r risgiau i'r meysydd gwasanaeth trwy'r Rhaglen Newid Trawsnewidiol. Mae gan yr Adran Adnoddau Dynol rôl allweddol yn y Rhaglen Newid a'r Tîm Rheoli Corfforaethol i gynghori a chynorthwyo yn unol â hynny.

Caiff "cynllunio ar gyfer olyniaeth" ei gynnwys mewn unrhyw achos busnes sy'n cael ei ystyried fel rhan o'r Rhaglen Newid Trawsnewidiol. Mae achos busnes wedi'i gyflwyno ar gyfer penodi Swyddog Datblygu Gweithlu er mwyn ystyried "cynllunio ar gyfer olyniaeth" yn ei ystyr ehangach ac yng ngoleuni'r ffaith fod gweithlu'r Awdurdod yn heneiddio. Ar ôl penodi rhywun i'r swydd, bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r "offer datblygu gweithlu" a ddatblygwyd gan CLILC a Swyddfa Archwilio Cymru.

(m) Sefydlu sianeli cyfathrebu clir â phob rhan o'r gymuned a rhanddeiliaid eraill, gan sicrhau atebolrwydd ac annog ymgynghoriad agored:

Mae ymgynghori ac ymgysylltu yn rhai o'r prif ddulliau a ddefnyddia'r Cyngor i lywio a deall barn a sylwadau'r trigolion lleol, y cwsmeriaid a'r rhanddeiliaid eraill yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu ac mae'n berthnasol i'r holl ffrydiau gwaith sydd angen gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori.

Yn unol â'r Strategaeth Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu, mae'r Cyngor yn adolygu ei sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu yn barhaus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cylchgrawn Cyswllt
- Mewnwyd y Cyngor
- Gwneud defnydd o gyfryngau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Gwneud defnydd o ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfer grwpiau cynllunio
- Briff craidd y Prif Weithredwr
- Y Cyfryngau Cymdeithasol gan gynnwys Ffwsbwc a Thrydar
- Gwefan y Cyngor
- Cyfleusterau Arwyddion Electronig
- Gwell mynediad i sianeli yn y maes telathrebu
- Ymgynghoriad penodol ar raglenni'n ymwneud â newid e.e. Sesiynau Gwybodaeth y Prif Weithredwr, Blog y Prif Weithredwyr
- Sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb, megis sesiynau galw heibio a sioeau teithiol

Ymgysylltwyd â'r cyhoedd fel rhan o'r broses i ymgymryd â'r Asesiad Llesiant i lywio'r Cynllun Llesiant ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. At hynny, cynhaliwyd ymgysylltiad ac ymgynghoriad pellach i lywio Datganiad Llesiant y Cyngor ynghyd â'r amcanion sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf.

Mae yna sianeli cyfathrebu clir ar waith trwy'r gorfforaeth ar gyfer pob gweithgaredd

ymgyngori ac ymgysylltu. Gwneir hyn trwy Ganolfan Ymgysylltu Cwm Taf, gwefan y Cyngor, gwefannau cyfryngau cymdeithasol a'r cylchgrawn cymunedol Cyswllt. Yn ychwanegol at hyn, mae Panel Dinasyddion Merthyr Tudful a Phanel Cyfun â Rhondda Cynon Taf yn sicrhau bod y Cyngor yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â phob rhan o'r gymuned.

Mae ymgynghori ac ymgysylltu yn gyfrifoldeb i'r Tîm Cyfathrebu ac Ymgynghori Corfforaethol o fewn y Cyngor ac fe'i cefnogir hefyd gan Grŵp Ymgysylltu Cyhoeddus Cwm Taf sydd newydd ei sefydlu i hyrwyddo'r dasg o gydlyn cyfranogiad, ymwneud, ymgysylltu ac ymgynghori ar draws sefydliadau partner yn ardal Cwm Taf.

Bellach, mae'r Cyngor yn fwy rhagweithiol o ran ei holl ymgynghori ac ymgysylltu ar draws ardal Cwm Taf, gan weithio'n agosach â phartneriaid a mynychu cyfarfodydd grŵp strategol yr ymarferwyr hynny sy'n ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae lefel yr ymgysylltiad wedi gwella'n sylweddol yn ardal Cwm Taf gyda lansiad Porth Cwm Taf. Yn fewnol, mae'r Cyngor wedi datblygu prosesau a gweithdrefnau ymgynghori ac ymgysylltu mwy cadarn trwy weithio gyda Gweithiwr Ymgynghori ac Ymgysylltu achrededig.

Darperir diweddariadau rheolaidd ar gynnydd pob gweithgaredd cyfathrebu ac ymgynghori a wneir yn fewnol trwy'r Tîm Rheoli Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, yr Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgynghori, Grŵp Llywio'r Rhaglen Newid a Bwrdd y Rhaglen Newid. At hynny, caiff cynnydd ar ymarferion ymgynghori penodol ei adrodd yn ôl i Grŵp Ymgysylltu Cyhoeddus Cwm Taf.

Mae gan y Cyngor Gynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth sy'n rhoi manylion am y wybodaeth a gyhoeddir yn awtomatig neu'n rheolaidd gan y Cyngor ac sy'n cael ei chategoreiddio o dan wahanol benawdau, e.e. Cyfansoddiad a Democratiaeth. Cyhoeddir y Cynllun ar wefan allanol y Cyngor.

(n) Ymgorffori trefniadau llywodraethu da mewn perthynas â phartneriaethau a threfniadau cydweithio eraill fel y nodwyd yn Adroddiad y Comisiwn Archwilio ar Lywodraethu Partneriaethau, ac adlewyrchu'r rhain yn nhrefniadau llywodraethu cyffredinol yr Awdurdod:

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau er mwyn cyflawni ei amcanion a'i flaenoriaethau. Dyma rai enghreifftiau:

- Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ym mis Mai 2016 a dyma oedd yr ardal gyntaf yng Nghymru i sefydlu un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gwmpasu cymunedau a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Lleol. Mae'r Bwrdd hwn yn cynnwys arweinwyr ac uwch reolwyr sefydliadau Cwm Taf, gan gynnwys: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Interlink Rhondda Cynon Taf, Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol,

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru, Cwmni Adsefydlu Cymunedol, a Llywodraeth Cymru.

- Bwrdd Partneriaeth Strategol Cwm Taf.
- Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf - paratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a goruchwyllo'r dasg honno.
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Bargen Ddinesig ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd - deg o awdurdodau lleol De-ddwyrain Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn datblygu ac yn sicrhau Bargen Ddinesig gyda Llywodraeth y DU.
- Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Cwm Taf yn bartneriaeth aml-asiantaeth sy'n gweithio gyda'i gilydd i leihau troseddau, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys sefydliadau o blith y sector statudol a gwirfoddol.
- Mae Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf yn grŵp statudol sy'n cynnwys asiantaethau partner allweddol, gan gynnwys mudiadau cymunedol a gwirfoddol sy'n cydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.
- Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf yn grŵp sy'n cynnwys asiantaethau partner allweddol, gan gynnwys mudiadau cymunedol a gwirfoddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu oedolion bregus rhag cael eu cam-drin, gan leihau'r risg o gamdriniaeth a chefnogi pobl i atal camdriniaeth lle bynnag y mae'n digwydd.

Mae yna amrywiaeth o brosesau llywodraethu ar gael i'r partneriaethau sy'n gymesur ag angen a chymhlethdod.

Mae'r Cyngor wedi datblygu Pecyn Cymorth Rheoli Risg i Bartneriaethau sy'n rhoi fframwaith ar gyfer canfod a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chreu, sefydlu, rheoli a darparu partneriaethau llwyddiannus. Cafodd y Pecyn Cymorth ei dreialu gan ystod o wasanaethau ar draws y Cyngor i brofi ei effeithiolrwydd ac i roi adborth ar unrhyw welliannau angenrheidiol. Mae'r Pecyn Cymorth drafft wedi'i ddiweddarau lle bo angen er mwyn adlewyrchu'r adborth a gafwyd o'r cynllun peilot a bwriedir ei roi ar waith fesul cam yn 2017/18.

(o) Sicrhau bod trefniadau rheoli ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol (2010) a, lle nad ydynt, esbonio pam a sut y maen nhw'n cyflawni'r un effaith:

Y Swyddog Adran 151 (sef y Prif Swyddog Cyllid) yw'r swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor, yn unol ag adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn adrodd yn strategol i'r Prif Weithredwr ac yn weithredol i'r Dirprwy Brif Weithredwr ac mae'n aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyngor priodol yn cael ei roi ar bob mater ariannol, ac am gynnal cyfrifon a chofnodion ariannol priodol a chynnal system effeithiol ar gyfer rheoli ariannol mewnol.

Yn unol â Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (2009) a'r Datganiad ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol (2010), mae Prif Swyddog Ariannol y Cyngor:

- yn aelod allweddol o'r Tîm Arweinyddiaeth, gan gynorthwyo'r Tîm i ddatblygu a gweithredu strategaeth ac i adnoddau a chyflawni amcanion strategol y Cyngor yn gynaliadwy ac er budd y cyhoedd;
- yn cymryd rhan weithredol a dylanwadol ymhob penderfyniad busnes perthnasol er mwyn sicrhau bod goblygiadau, cyfleoedd a risgiau cyfredol a hirdymor yn cael eu hystyried yn llawn, ac yn cyd-fynd â strategaeth ariannol y Cyngor; ac
- yn arwain y dasg o hyrwyddo a chyflwyno rheolaeth ariannol dda ar draws yr holl Gyngor fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu bob amser a'i ddefnyddio'n briodol, yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn, bydd y Prif Swyddog Cyllid:

- yn arwain ac yn cyfarwyddo rôl gyllidol sydd ag adnoddau i fod yn addas i'r diben; ac
- yn meddu ar gymwysterau proffesiynol a phrofiad addas.

(p) Sicrhau bod trefniadau gwrth-dwyll a gwrthlygredd effeithiol yn cael eu datblygu a'u cynnal.

Mae gan y Cyngor Bolisi Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd cymeradwy. Mae'r Polisi Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd ar gael yn electronig trwy'r Fewnwyd ac mae aelodau'r staff wedi'u gwneud yn ymwybodol o'r Polisi a'i leoliad. Cydnabuwyd bod angen adolygu'r polisi.

Mae Archwilwyr Mewnol yn ymchwilio i dwyll mewnol ochr yn ochr ag ymarferion penodol a gyflawnir gan Staff sy'n delio â Budd-daliadau a'r Dreth Gyngor.

(q) Sicrhau bod trefniadau aswiriant yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol (2010) a, lle nad ydynt, esbonio pam a sut maen nhw'n cyflawni'r un effaith.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol (y Rheolwr Archwilio) yn meddu ar gymwysterau CIPFA ac ar dros 20 mlynedd o brofiad. Mae'n arwain tîm o staff sy'n darparu archwiliad mewnol proffesiynol, cost-efeithiol ac annibynnol o systemau rheolaeth fewnol y Cyngor, trefniadau rheoli risg a threfniadau llywodraethu. Mae'r Archwilwyr Mewnol yn gweithio i gynllun sy'n seiliedig ar risg, ac yn cynhyrchu adroddiadau sy'n rhoi barn ar safonau'r Cyngor o ran ei reolaeth fewnol, y modd y mae'n cydymffurfio â rheolaethau sefydledig, a'i drefniadau llywodraethu.

Mae'r Siarter Archwilio Mewnol a'r cydymffurfiad â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn dangos y ffordd i gyflawni'r egwyddorion a nodir yn Natganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol.

Caiff Adroddiad yr Archwiliad Mewnol Blyneddol ei lunio gan y Rheolwr Archwilio a'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio sy'n rhoi barn ar y Fframwaith Rheoli Mewnol, y Trefniadau Rheoli Risg a'r Trefniadau Llywodraethu. Mae'r farn a luniwyd yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan yr Archwiliad Mewnol yn ystod y flwyddyn ariannol a bydd hynny'n nodi unrhyw "fylchau" mewn adnoddau ac unrhyw bryderon am y Trefniadau Rheoli Risg, y Trefniadau Llywodraethu a'r Rheolaeth Fewnol.

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol yn nodi bod gan y Prif Swyddog Cyllid a'i Gynrychiolwyr Archwilio yr awdurdod i gael mynediad uniongyrchol i Bennaeth y Gwasanaeth Taledig, y Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r Rheolwr Archwilio yn mynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac yn gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Archwilio i ddarparu her a chymorth ar draws y Cyngor i wella'r llywodraethiant, y rheolaeth risg a'r rheolaeth fewnol. Nid yw'r Rheolwr Archwilio yn aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ond mae ganddo fynediad uniongyrchol i'w reolwr yntau sef Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

(r) Dogfennu'r ymrwymiad i fod yn agored a gweithredu er budd y cyhoedd.

Mae Rhan 5.01.02 y Cyfansoddiad sef "Egwyddorion Ymddygiad Aelodau" yn manylu ar yr egwyddorion y mae'n rhaid i'r holl aelodau gydymffurfio â hwy, ac mae un ohonynt yn cynnwys "bod yn agored". Mae bod yn agored wrth ledaenu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau hefyd wedi'i gynnwys o fewn y Cod Ymddygiad i Gyflogeion sy'n ffurfio rhan 5.02.05 o'r Cyfansoddiad. Mae Polisi Chwythu'r Chwiban yn nodi bod y Cyngor wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posibl o ran bod yn agored, yn gywir ac yn atebol.

Yn ôl y Cod Ymddygiad, mae'n ofynnol i aelodau a gweithwyr gwblhau cofrestriad o fuddiannau ariannol ac unrhyw fuddiannau eraill gan gynnwys aelodaeth, swyddi rheoli, lletygarwch a rhoddion. Mae Cofrestrau'r aelodau yn cael eu monitro gan y Swyddog Monitro.

Mae pob gwasanaeth yn cadw cofrestrau ar gyfer gweithwyr a chânt eu monitro gan y Cyfarwyddwyr.

Mae "Datganiadau o Ddiddordeb" yn ymddangos fel eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod pwyllgor lle caiff aelodau eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fudd personol a rhagfarnus mewn perthynas â materion a gynhwysir yn yr agenda.

(s) Adolygu effeithiolrwydd y fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y trefniadau dirprwyo, y modd y gwneir penderfyniadau mewn partneriaethau, y wybodaeth a roir i'r rhai sy'n llunio penderfyniadau, a chadernid yr ansawdd data.

Mae Rhan 2.01.03 o'r Cyfansoddiad yn nodi mai ei bwrpas o ran gwneud penderfyniadau yw:

- Creu dull pwerus ac effeithiol o sicrhau bod y cyhoedd yn gallu dal y rhai sy'n llunio penderfyniadau i gyfrif;
- Sicrhau na fydd unrhyw un y bu â chysylltiad uniongyrchol â phenderfyniad yn ei adolygu neu'i graffu (er enghraifft, ni all Aelod o'r Cabinet hefyd wasanaethu ar Bwyllgor Craffu);
- Sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am lunio penderfyniadau yn hysbys i bobl leol a'u bod yn egluro'r rhesymau am benderfyniadau.

I'r perwyl hwn, mae holl gyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cofnodi ynghyd â'i holl benderfyniadau. Cyhoeddir y cofnodion ar y fewnwyd a'r rhyngwyd.

Mae'r egwyddorion ar gyfer llunio penderfyniadau wedi'u manylu yn Erthygl 13 y Cyfansoddiad hefyd.

Mae'r Penderfyniadau/Cynigion a Basiwyd yn seiliedig ar dempledi adroddiadau safonol a gyflwynir gan swyddogion ac maent yn cynnwys argymhellion er ystyriaeth yr aelodau. Mae'r sail resymegol dros yr argymhelliad wedi'i chynnwys yng nghorff yr adroddiad. Mae'r templed adroddiad safonol yn mynnu bod Asesiad Effaith Cydraddoldeb, Goblygiadau Cyllid a Chynllun Integredig Sengl a'r Asesiad Effaith Cynaliadwydd yn cael eu cwblhau - mae hyn yn ymdrech i sicrhau bod yr holl adroddiadau, penderfyniadau a chynigion i'r Cyngor a'r Cabinet yn cyfrannu tuag at gyflawni'r Flaenoriaeth.

Bellach, mae Aelodau a Swyddogion yn cymryd rhan ar y cyd mewn Cyfarfodydd Cynllunio Agenda er mwyn sicrhau eglurder cyfeiriad, a bydd Aelodau'r Cabinet hefyd yn mynychu Cyfarfodydd Rheoli Gwasanaeth a Chraffu gyda Swyddogion. Mae'r prosesau hyn yn parhau i ddatblygu ac ymwreiddio ac mae ymrwymiad Aelodau'r Cabinet yn parhau i wella ac esblygu.

Mae'r Cyngor wedi ffurfio Pwyllgor Safonau i hyrwyddo a chynnal egwyddorion moesegol uchel ac mae'r rhain wedi'u hymgorffori o fewn Cod Ymddygiad i Aelodau. Mae hyn wedi'i fanylu yn Erthygl 9 y Cyfansoddiad. Rhaid i bob Cynghorydd gytuno i ddilyn y Cod Ymddygiad er mwyn sicrhau safonau uchel wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Mae'r Pwyllgor Safonau

hefyd yn gyfrifol am roi hyfforddiant a chyfarwyddyd i'r Cynghorwyr ynghylch y Cod Ymddygiad.

(t) Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i gyflawni swyddogaeth y swyddog monitro.

Manylir ar swyddogaethau'r Swyddog Monitro yn Rhan 2.12.03 y Cyfansoddiad. Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae'r Tîm yn derbyn ac yn adolygu'r holl adroddiadau sydd i'w cyflwyno gerbron y Cyngor a'r Cabinet, bythefnos ynghynt.

Rheolir y Swyddog Monitro yn uniongyrchol gan y Prif Weithredwr ac mae'n ddarostyngedig i'r broses arfarnu 1 i 1. Mae targedau rheoli perfformiad wedi'u pennu a'u bodloni. Mae'r Swyddog Monitro yn chwarae rhan weithredol yn y trefniadau llywodraethu sydd bellach ar waith.

(u) Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith er mwyn i benaethiaid y gwasanaethau taledig fedru cyflawni'u swyddogaethau.

Manylir ar swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaeth Taledig yn Rhan 2.12.02 y Cyfansoddiad ac fe'u cyflawnir trwy'r strwythur sefydliadol. Mae'r strwythur rheoli yn manylu ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Pennaeth Gwasanaethau Taledig sy'n cynnwys rheolaeth gorfforaethol a strategol gyffredinol ynghyd â chyfrifoldeb gweithredol dros y Cyngor. Mae hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb gyffredinol i reoli pob swyddog.

Mae swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Taledig a'r Prif Weithredwr wedi'u cyfuno ac yn parhau i gael eu cyflwyno a'u gweithredu'n effeithiol.

(v) Sicrhau bod swyddogaeth graffu effeithiol ar waith.

Perfformir swyddogaeth graffu'r Cyngor gan chwe Phwyllgor Craffu fel a ganlyn:

- Trefn Lywodraethol, Perfformiad, Newid Busnes a Gwasanaethau Corfforaethol
- Gwasanaethau Cymdogaeth a Gwarchod y Cyhoedd
- Adfywio, Cynllunio a Chefn Gwlad
- Dysgu a GAALIPPhI (Gwasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc)
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cyd-bwyllgor Craffu

Mae'r Pwyllgorau Craffu hyn yn cynnwys aelodau lleol etholedig (Cynghorwyr) nad ydynt yn rhan o Gabinet y Cyngor, ynghyd â chynrychiolwyr cyfetholedig. Eu rôl yw monitro perfformiad, herio cynigion gwariant y Cyngor, adolygu gwasanaethau, cyfrannu at ddatblygu polisiau, archwilio gwaith darparwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol eraill a hyrwyddo ymgysylltiad y cyhoedd â'r broses ddemocrataidd.

Gall y Pwyllgorau Craffu "alw i mewn" holl benderfyniadau'r Cabinet. Anfonir cyswllt at bob Cyngorydd i agenda'r Cabinet. Anfonir hysbysiadau cofnodion/penderfyniadau at Aelodau'r

Pwyllgor Craffu er mwyn iddynt benderfynu a ydynt am "alw penderfyniad i mewn". Mae'r Pwyllgor Craffu'r Drefn Lywodraethol, Perfformiad, Newid Busnes a Gwasanaethau Corfforaethol yn derbyn adroddiadau fel y pwyllgor craffu "troswaol". Cyfeirir unrhyw faterion sydd i'w harchwilio ymhellach at bwyllgorau craffu unigol.

Yn ystod 2016/17, ni chafodd unrhyw un o benderfyniadau Cabinet ei "alw i mewn". Mae Aelodau'r Cabinet yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu yn rheolaidd lle cânt eu herio ynghylch eu meysydd cyfrifoldeb. O ganlyniad, mae penderfyniadau'r Cabinet yn destun craffu. Mae rhaglenni gwaith, adroddiadau, cofnodion a recordiadau o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu ar gael.

Mae Pwyllgor Craffu'r Drefn Lywodraethol, Perfformiad, Newid Busnes a Gwasanaethau Corfforaethol wedi ymgymryd â'r rôl o graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2016/17 gyda'r Asesiad Llesiant yn cael ei gyflwyno iddynt ym mis Mawrth 2017, ac adroddiadau ar gynnydd y broses o sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cyfunol yng Nghwm Taf yn 2016/17. Sefydlwyd Cydbwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn ystod 2016/17 a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2017.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgorau Craffu yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol sy'n cynnwys trem yn ôl ar waith pob un ohonynt yn ystod y flwyddyn fwrdeisiol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ystod mis Gorffennaf 2017.

(w) Sicrhau bod yr Awdurdod yn darparu cymorth, gwybodaeth ac ymatebion amserol i archwilwyr allanol ac yn rhoi ystyriaeth briodol i ganfyddiadau ac argymhellion yr archwiliad.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r system gyfredol ar gyfer Cynllun Gweithredu Archwiliad ac Arolygiad (yr AAP) ers dros 10 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys proses ar gyfer rheoli argymhellion archwilio allanol. Cynhaliwyd archwiliad mewnol ac allanol yn ddiweddar i werthuso'r trefniadau presennol a nodwyd bod angen gwella rhai o'r meysydd dan sylw; yn dilyn hynny, cafodd gweithdrefn ychwanegol newydd ei ddrafftio a'i gymeradwyo gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ym mis Rhagfyr 2016 a'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2017. Mae'r weithdrefn newydd hon bellach ar waith; fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i roi sylwadau ar ei effeithiolrwydd hyd yma.

Datblygwyd system newydd sy'n cael ei phrofi ar hyn o bryd. Y bwriad yw ei gweithredu yn ystod 2017/18.

4. ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

O leiaf unwaith bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei Fframwaith Llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio: gan waith rheolwyr gweithredol y Cyngor sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol, a chan y sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol a'r asiantaethau adolygu ac arolygu eraill.

Trwy gydol 2016/17, mae'r Cyngor wedi cynnal ac adolygu ei system rheolaeth fewnol mewn sawl ffordd. Yn benodol:

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiadau cynlluniedig o weithdrefnau rheoli mewnol, gweithdrefnau rheoli risg a threfniadau llywodraethu ar draws adrannau ac ar draws ystod o swyddogaethau o fewn y Cyngor. Gweithiodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn unol â'i Gynllun ar gyfer 2016/17. Cyhoeddwyd adroddiadau ar ôl cwblhau aseiniadau a'u dosbarthu i reolwyr ac aelodau o'r adran weithredol, a chafodd cynlluniau gweithredu eu rhoi yn y system AAP yn unol â'r prosesau mewnol. Mae cofnodion a phapurau agenda'r Pwyllgor Archwilio yn dangos bod archwiliadau mewnol, archwiliadau allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) ac adroddiadau asiantaethau rheoli/arolygu allanol eraill wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. At hynny, mae'n dangos bod swyddogion wedi cael eu galw i'r Pwyllgor Archwilio i drafod eu hadroddiadau a'u cynlluniau gweithredu, a bod gofyn iddynt hefyd ddarparu diweddariadau pellach ar gynnydd yng nghyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Archwilio. Mae gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio fynediad i system AAP y Cyngor fel y gallant weld cynlluniau gweithredu'r gwasanaeth a monitro cynnydd y gwaith o gwblhau'r camau dan sylw.

Cafodd Adroddiad yr Archwiliad Mewnol Blynyddol am y flwyddyn ariannol 2016/17 sy'n ymgorffori barn y Rheolwr Archwilio, ei gynhyrchu a'i gyflwyno gerbron Pwyllgor Archwilio'r Cyngor ar 10 Gorffennaf 2017. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, rhoddodd yr Archwiliad Mewnol farn foddhaol ar yr amgylchedd rheoli mewnol, y trefniadau rheoli risg a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer 2016/17 (gellir dod o hyd i wybodaeth bellach yn Adroddiad yr Archwiliad Mewnol Blynyddol 2016/17).

Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi archwilio nifer sylweddol o faterion fel rhan o'u rhaglen waith yn 2016/17 ac fe'u dangosir yn eu Hadroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 28 Mehefin 2017.

Mae'r wybodaeth sydd i'w hystyried ar gyfer cynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys: gwybodaeth am reoli perfformiad, gwaith a gwblhawyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, gwaith a gwblhawyd gan yr Archwilydd Allanol ac asiantaethau arolygu allanol eraill, a'r gwaith sy'n ymwneud â Chraffu, Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Mewnol, gan gynnwys gweithdrefnau, codau ymddygiad a pholisïau a rheolaethau rheoli ariannol fel y'u hamlinellir yng nghaniellawiau CIPFA.

Cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a swyddogion allweddol y Cyngor adolygiad yn

seiliedig ar ganllawiau CIPFA i sicrhau bod tystiolaeth ar gael i: gefnogi cynhyrchiad y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol, nodi bylchau lle nad oedd tystiolaeth, ac adolygu effeithiolrwydd y trefniadau presennol.

Cynhyrchwyd fersiwn ddrafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ar gyfer ymgynghoriad a thrafodaeth y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Craffu'r Drefn Lywodraethol, Perfformiad, Newid Busnes a Gwasanaethau Corfforaethol, ac mae hefyd wedi'i gyflwyno i'r Archwilwyr Allanol am eu sylwadau a'u hadborth hwythau. Cyflwynir y fersiwn derfynol i'r Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor Llawn ym mis Medi 2017 a'i chyhoeddi gyda'r Datganiad Cyfrifon.

Dangosir y Materion Llywodraethu Sylweddol ar gyfer 2016/17 yn Adran 5 gan roi ystyriaeth i'r diffiniad a nodwyd yn Atodiad 1.

Mae'r Materion Llywodraethu Sylweddol a nodwyd yn 2015/16 ynghyd â'r sefyllfa gyfredol ddiweddaraf parthed eu statws, wedi'u cynnwys yn Adran 6.

5. MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL 2016/17

Materion	2016/17 Sefyllfa'r DLIB a'r Camau a Gymerwyd/Gynlluniwyd
Pwysau Ariannol: Mae adnoddau ariannol prin yn erbyn y galw cynyddol am wasanaethau a phrosiectau cyfalaf yn achosi pwysau ar y gyllideb sy'n effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau cyhoeddus. E.e. lleihad i'r cyllid a ddaw oddi wrth Lywodraeth Cymru, diffyg incwm buddsoddi a derbyniadau cyfalaf, pecynnau gofal costus, gostyngiadau mewn cyllid grant.	Cyflwynwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2016/17 i 2019/20 er cymeradwyaeth y Cyngor ar 23 Mawrth 2016, gan amcangyfrif diffyg o £20.3 miliwn i'r gyllideb dros gyfnod y Cynllun yn seiliedig ar ragdybiaethau'r Cynllun hwnnw. Cymeradwyodd y Cyngor y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2017/18 i 2020/21 ar 22 Mawrth 2017, gan nodi diffyg amcangyfrifedig i'r gyllideb o £16.4 miliwn dros y 4 blynedd. Nodwyd hefyd y byddir yn mynd i'r afael â'r diffyg hwn trwy Raglen Newid Corfforaethol y Cyngor. Er bod y Cyngor yn sicrhau bod ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn gydnaws â'i flaenoriaethau, rhaid gwerthfawrogi bod y Cynllun hwn yn rhaglen dreigl sy'n cael ei diweddarau'n barhaus i ddiwallu amgylchiadau, datblygiadau a blaenoriaethau newydd. O ganlyniad, cydnabuwyd bod angen cryn dipyn o waith o hyd i gysoni'r gofynion gwariant yn llawn â'r Blaenoriaethau Corfforaethol a'r cyllid oedd ar gael. Mae Cynllun Gweithredu Enghreifftiol y Cyngor yn diffinio'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cyflawni'i fusnes wrth symud ymlaen, ac mae'n ategu Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a "Thudalen Strategaethau" y Prif Swyddog. Mae hyn yn arwain at: ailgynllunio gwasanaethau'r Cyngor trwy roi'r ffocws ar ganlyniadau, a datblygu asesiadau gwerth am arian fel eu bod yn herio'r modd y dyrennir adnoddau. Yn ogystal, mae "Cynaliadwyedd Ariannol" yn un o themâu Gwella Ansawdd y Strategaeth Gorfforaethol ac mae'n ymgorffori cynaliadwyedd a chydnerthedd ariannol y Cyngor o dan arweiniad y Prif Swyddog Cyllid. Bydd y Bwrdd Perfformiad yn monitro cyflawniad yn erbyn y mesurau llwyddiant a'r canlyniadau dymunol sy'n ymwneud â "Chynaliadwyedd Ariannol" a'r "Dudalen Strategaethau". Yn 2016/17, cafwyd gwarged sylweddol o £1.64 miliwn ar alldro'r refeniw dros dro (cyn trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd), gyda Chronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yn parhau ar £4.627 miliwn (sef 4% o'r gyllideb refeniw net) ac yn unol â Chylch Gorchwyl y Bwrdd Cyllideb. Y gwarged dros dro hwn yw'r swm net o £1.95 miliwn a ddarparwyd ar gyfer clirio gwastraff ar dir ym Mhengarnddu. Mae'r Bwrdd Cyllideb a'r Bwrdd Rheoli Newid wedi bod yn allweddol i gyflawni'r gwarged dros dro trwy graffu a herio Rheolwyr y Gyllideb yn rymus, nodi problemau ariannol posibl yn gynnar, a chefnogi camau cywiro amserol.

6. MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL 2015/16 - DIWEDDARIAD

Materion	Y SEFYLLFA SYDD OHONI (2016/17)
Adroddiad Estyn ar Wasanaethau Awdurdodau Lleol i Blant a Phobl Ifanc	Daeth Arolygiad Monitro Terfynol ESTYN a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2015 i'r casgliad bod yr Awdurdod, ar y cyfan, wedi gwneud cynnydd cryf yn erbyn wyth argymhelliad yr Arolygiad a gynhaliwyd yn 2012. Daeth hysbysiad ffurfiol i law oddi wrth ESTYN ym mis Ionawr 2016 yn cadarnhau bod Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oedd angen mesurau arbennig ar yr Awdurdod bellach a'i fod wedi'i dynnu oddi ar unrhyw weithgaredd dilynol. Mae'r ALL yn parhau i fonitro effaith y gwasanaethau addysg yn agos trwy grwpiau mewnol ac allanol gan gynnwys Gwasanaeth Addysg yr Awdurdod Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, y Pwyllgor Craffu Dysgu a Phwyllgor Craffu'r Drefn Lywodraethol. Roedd adroddiad diweddar i Bwyllgor Craffu'r Drefn Lywodraethol ym mis Ionawr 2017 yn cynnwys hunanwerthusiad o sefyllfa bresennol y gwasanaeth a thargedau'r dyfodol yn erbyn yr holl gwestiynau allweddol yn Fframwaith Gwerthuso ESTYN. Ar hyn o bryd, bernir bod y canlyniadau'n "ddigonol" a bod y rhagolygon am welliant yn "dda". Y targed yw parhau i wella'r ddarpariaeth a'r safonau er mwyn i'r farn fod yn "dda" ar gyfer rhagolygon a gwelliant yn y flwyddyn academaidd nesaf (2017/18). Yn ogystal, rydym yn anelu at "ragorol" mewn rhai meysydd gwasanaeth. Canlyniadau yn 2016 a thueddiadau dros amser Mae'r canlyniadau wedi gwella'n sylweddol oddi ar 2012. Mae'r canlyniadau terfynol yn dangos bod ein cyfraddau cyrhaeddiad wedi gwella'n gyflymach nag unrhyw awdurdod neu ranbarth arall yng Nghymru dros y 4 blynedd dan sylw, a bod y gwelliant hwn yn gyson ar draws bron pob dangosydd ac ar draws pob cam. • Mae canlyniadau plant 7 oed wedi gwella 3% eleni a 15% oddi ar 2012. • Mae canlyniadau plant 11 oed wedi gwella 2% eleni a 12% oddi ar 2012. • Mae canlyniadau plant 14 oed wedi gwella 5% eleni a 22% oddi ar 2012. • Mae canlyniadau plant 16 oed wedi gwella 2% eleni a 21% oddi ar 2012. Mae'r gwelliannau cyrhaeddiad hefyd wedi'u hadlewyrchu mewn safleoedd gwell na'r disgwyl i CBSMC yng nghyd-destun y Mynegai Amddifadedd Lluosog.

Materion	Y SEFYLLFA SYDD OHONI (2016/17)
Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol sy'n ymgorffori'r Adroddiad Asesu Corfforaethol 2014	O ran A1, bu'r Cyngor yn ymgysylltu â Phartner Strategol (PWC) yn gynnar yn 2015 er mwyn cynorthwyo'r dasg o adolygu'i fodel gweithredu a nodi gwelliannau ac arbedion y gellid eu gwneud yng nghyllideb refeniw'r Cyngor. Gwnaed cryn dipyn o waith ar draws yr Awdurdod a chyflawnwyd nifer o arbedion a gwelliannau. Mewn perthynas ag A2, cynhaliodd ESTYN ei Arolygiad Monitro Terfynol ym mis Rhagfyr 2015 a daeth i'r casgliad bod yr Awdurdod, ar y cyfan, wedi gwneud cynnydd cryf yn erbyn wyth argymhelliad yr Arolygiad a gynhaliwyd yn 2012. Derbyniwyd hysbysiad ffurfiol gan ESTYN ym mis Ionawr 2016 yn cadarnhau bod Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oedd angen mesurau arbennig ar yr Awdurdod bellach a'i fod wedi'i dynnu oddi ar unrhyw weithgaredd dilynol.
Pwysau Ariannol: Mae adnoddau ariannol prin yn erbyn y galw cynyddol am wasanaethau a phrosiectau cyfalaf yn achosi pwysau ar y gyllideb sy'n effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau cyhoeddus. E.e. llai o gyllid yn dod o Lywodraeth Cymru, diffyg incwm buddsoddi a derbyniadau cyfalaf, pecynnau gofal costus, gostyngiadau i'r cyllid grant.	Mae gostyngiad i'r cyllid a ddaw oddi wrth Lywodraeth Cymru yn parhau, ac o ganlyniad, bydd hyn yn dal i fod yn fater llywodraethu sylweddol ar gyfer 2016/17. Gweler Adran 5 – "Materion Llywodraethu Sylweddol 2016/17" am y sefyllfa sydd ohoni a'r camau a gymerwyd/a gynlluniwyd i fynd i'r afael â'r mater.

Materion	Y SEFYLLFA SYDD OHONI (2016/17)
Trefniadau Craffu	Cynhaliodd ESTYN ei Arolygiad Monitro Terfynol ym mis Rhagfyr 2015 a daeth i'r casgliad bod yr Awdurdod, ar y cyfan, wedi gwneud cynnydd cryf yn erbyn wyth argymhelliad yr Arolygiad a gynhaliwyd yn 2012. Derbyniwyd hysbysiad ffurfiol gan ESTYN ym mis Ionawr 2016 yn cadarnhau bod Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oedd angen mesurau arbennig ar yr Awdurdod bellach a'i fod wedi'i dynnu oddi ar unrhyw weithgaredd dilynol.
Adnoddau Staff y Gwasanaeth Archwilio Mewnol	Ar gyfer hanner cyntaf 2016/17, roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu ar oddeutu 50% o'i adnoddau. Rhoddwyd blaenoriaeth i recriwtio er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon ac erbyn mis Medi 2016, roedd y Gwasanaeth yn gweithredu ar 83% o'i adnoddau ac erbyn wythnos gyntaf mis Hydref 2016, roedd y canran wedi codi i 100%. Paratowyd Cynllun Archwilio 2016/17 gyda'r posibilrwydd y byddai nifer sylweddol o swyddi gwag yn bodoli am ryw gyfnod o'r flwyddyn ariannol. Unwaith y daeth gwir lefel y swyddi gwag i'r amlwg, cafodd proffil risg y cynllun a'r aseiniadau unigol eu hailwerthuso yn unol â lefel yr adnoddau oedd ar gael trwy gydol y cyfnod. At hynny, cafodd gwaith ei ddyrannu i leihau unrhyw effaith ar y ddarpariaeth. Cafodd hyn ei reoli'n llwyddiannus ac, ar y cyfan, er bod lefel y ddarpariaeth yn llai na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol, cafodd pob un o aseiniadau'r archwiliad oedd wedi'u dynodi â'r flaenoriaeth uchaf, eu cwblhau o fewn y cyfnod. Caniataodd hynny i'r Rheolwr Archwilio gynhyrchu'i Adroddiad Blynyddol ac ymgorffori'i farn ar y Fframweithiau Rheoli Risg, Llywodraethu a Rheoli Mewnol a weithredwyd o fewn y Cyngor yn 2016/17. Mae'r galw parhaus am gyni ac effeithlonrwydd yn dal i beryglu'r ymgais i sicrhau bod yr Archwiliad Mewnol yn cael adnoddau digonol i ddiwallu'i gyfrifoldebau statudol.

Cynigiwn ein bod, dros y flwyddyn i ddyfod, yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn diwallu'r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Cynghorydd
Arweinydd y Cyngor

Gareth Chapman
Y Prif Weithredwr

Atodiad 1

Wrth bennu'r hyn allai fod yn fater llywodraethu arwyddocaol, ystyriwyd y canlynol:

Does dim modd rhoi un diffiniad yn unig ar gyfer "mater llywodraethu arwyddocaol". Mae angen i gynghorau farnu a yw mater penodol yn syrthio i'r categori hwn ai peidio, ond gall y ffactorau canlynol fod o gymorth iddynt wrth benderfynu:

- Mae'r mater wedi niweidio neu rwystro un o'r prif amcanion yn ddifrifol.
- Mae'r mater wedi golygu bod angen chwilio am gyllid ychwanegol er mwyn ei ddatrys, neu wedi arwain at ddargyfeirio adnoddau sylweddol o elfen arall y busnes.
- Mae'r mater wedi cael effaith sylweddol ar y cyfrifon.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio, neu sefydliad cyfatebol, wedi cynghori y dylid ei ystyried yn arwyddocaol i'r diben dan sylw.
- Mae'r Rheolwr Archwilio wedi adrodd ei fod yn arwyddocaol i'r diben dan sylw, yn ei farn flynyddol ar amgylchedd y rheoli mewnol.
- Mae'r mater, neu ei effaith, wedi denu diddordeb sylweddol o ran y cyhoedd neu wedi niweidio enw da'r sefydliad yn ddifrifol.
- Mae'r mater wedi arwain at gamau ffurfiol yn cael eu cymryd gan y Prif Swyddog Cyllid a/neu'r Swyddog Monitro.